LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Ar y 5ed o Chwefror ymwelodd Llais â Phractis Cwm Taf i siarad â chleifion am eu barn a'u profiadau o'r feddygfa. Gofynnwyd i gleifion lenwi arolwg boddhad cleifion a chawsom 62 o ymatebion. Rydym wedi rhestru rhai canfyddiadau allweddol isod.

# Phractis Cwm Taf

- Mae 43% o gleifion o'r farn bod trefnu apwyntiad gyda'r meddyg teulu hwn yn hawdd
- Mae 61% o gleifion o'r farn bod dealltwriaeth meddygon teulu o bryderon yn rhagorol
- Mae 54% o gleifion o'r farn bod eu profiad o'r meddyg teulu hwn yn dda
- Dywed 54% o gleifion eu bod yn gorfod aros dros 48 awr i gael apwyntiad
- Dywed 72% o gleifion eu bod yn gorfod aros dros 48 awr i weld meddyg teulu o'u dewis
- Mae 16% o gleifion o'r farn bod y trefniadau eistedd yn wael

# Sylwadau gan gleifion

Mae'r meddygon teulu fel arfer yn ddeallus iawn ac yn barod i helpu. Rwyf bob amser wedi bod yn falch iawn gyda fy mhrofiad.

Mae pethau wedi gwella llawer ers covid, diolch.

Rwy'n hoffi'r gwasanaeth E-Consult. Dydw i ddim yn dod yma yn aml iawn.

Mae’r seddi yn galed. Mae'n rhaid bod ffordd haws o fynd drwodd i'r practis i gael apwyntiad. Pan fyddwch chi'n ffonio'n ôl mae’n rhaid i chi aros am byth weithiau, mae'n swydd amser llawn ceisio cael apwyntiad rhai dyddiau

Mae rhai meddygon teulu yn well nag eraill ar gyfer rhai pethau ond mae cael apwyntiad gyda meddyg teulu o'ch dewis yn anodd iawn.

Mae fy meddyg teulu yn wych ond yn anodd iawn cael mynediad. Mae'n cymryd wythnosau neu hyd yn oed fisoedd i fwcio oherwydd system 'rhyddhau' apwyntiadau a reolir gan berson dienw.

Dros nifer o flynyddoedd rwyf wedi derbyn triniaeth broffesiynol, ofalgar gan feddygon teulu a staff Practis Taff Vale.

Parcio ofnadwy, angen mwy o staff. Maen nhw wedi cau fy mhractis lleol ac mae'n achosi trallod i lawer o bobl leol, mae'n ffiaidd.

*Diolch i’r cleifion, staff a gwirfoddolwyr am ymgysylltu â ni a chefnogi’r ymweliad!*